


## NOD Y PROSIECT



## CYDNABOD EIN TREFTADAETH I GAEL

...

"Cymru fwy iach, gwydn a ffyniannus ... o gymunedau cydlynol a diwylliant bywiog; Cymru sy'n hyrwyddo a gwarchod ei diwylliant a'i threftadaeth."

-Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## MAE ARNOM EICH ANGEN!

Os ydych yn casglu unrhyw beth oddi ar draethau Cymru hoffem glywed eich stori.

Mae gennym ddiddordeb mewn rhai sy'n casglu unrhyw fath o anifeiliaid, planhigion neu wymon am unrhyw reswm, yn unrhyw le yng Nghymru.

Hoffech chi gadw mewn cysylltiad?

CYSYLLTWCH Â MI  
Liz Morris-Webb

[harvestingtheseashore@bangor.ac.uk](mailto:harvestingtheseashore@bangor.ac.uk)  
[www.stuartjenkins.net/harvestingtheseashore](http://www.stuartjenkins.net/harvestingtheseashore)



**EICH CYFEIRIAD:**  
Defnyddiwch y cyfeiriad hwn i gysylltu â ni ynghylch eich ymatebion.



## CYFRANIAD NATUR I BOBL:

# BETH MAE CASGLU PETHAU O'R TRAETH YN EI OLYGU I CHI?



2018



### Hoffem wybod:

- Beth rydych yn ei gasglu?
- Pam rydych yn ei gasglu?
- Gwerth casglu i chi'n bersonol?
- A ydych yn credu bod gwerth treftadaeth i'ch gweithgaredd?

### Ni fyddwn yn gofyn i chi:

- Lle rydych yn casglu.
- Faint o arian rydych yn ei ennill drwy gasglu.

Os nad ydych yn hoffi unrhyw rai o'n cwestiynau, gellwch eu pasio.

Yn bwysig iawn, ni fyddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif i unrhyw bobl neu sefydliadau eraill.

Bydd y wybodaeth hon yn cyfrannu tuag at ymchwil PhD i bwysigrwydd ac effeithiau gweithgareddau casglu rhynglanwol yng Nghymru. Bydd y canlyniadau ar gael i'r cyhoedd.

Archwiliwyd a chymeradwywyd yr holl gwestiynau gan Bwyllgor Adolygu Moesegol annibynnol fel rhan o Fframwaith Polisi Moeseg Prifysgol Bangor (Rhif cymeradwyo CNS2018EMW01)

**Unrhyw gwestiynau?** Cysylltwch â mi neu â'r Athro Stuart Jenkins, Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Bangor, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AB. Ffôn: 01248 382896

## GWYBODAETH AM FY YMCHWIL

Mae casglu rhai rhywogaethau arfordirol yn mynd ymlaen yng Nghymru ers amser maith ac yn rhan bwysig o'n diwylliant. Erbyn hyn mae Bara Lawr Cymreig a Chregyn Gleision Conwy yn 'Enwau Bwydydd Ewropeaidd a Warchodir' oherwydd eu tarddiad Cymreig. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o gerth y casglu hwn i bobl Cymru.

Mae yna lawer o resymau pam bod pobl yn casglu pethau ar y traeth, yn cynnwys coginio, pysgota, celf, byd natur a hyd yn oed goluron. Gall rhai rhywogaethau fod yn bwysig i economi a diwylliant, ond nid oes unrhyw ymchwil ar bwysigrwydd cymdeithasol casglu i'r casglwyr eu hunain.

Pam mae casglu'n bwysig i chi? Rydym eisiau gwybod, felly cymerwch ran yn yr astudiaeth hon os gwelwch yn dda drwy gael hyd i mi ar y traeth, neu gysylltu â mi drwy'r e-bost ar gefn y daflen hon i drefnu amser cyfleus i siarad. Mae croeso i chi roi manylion y prosiect i gasglwyr eraill hefyd. Gorau po fwyaf o straeon a gawn!

***Rydym eisiau clywed eich straeon.***

**Hoffwn ddod â gwerth diwylliannol a chymdeithasol eich gweithgareddau casglu at ei gilydd a gweld beth yw eu pwysigrwydd i chi.**

**Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth i ddiogelu casglu pethau ar ein traethau i genedlaethau'r dyfodol, gan ddangos hefyd bod gan ein gweithgareddau Cymreig werth ar lwyfan byd-eang.**




PECYNNAU O WYMON CYMREIG POBLOGAIDD



CRANCOD

GWICHIAID



CASGLWYR RHYWOGAETHAU AR ARFORDIR CYMRU  
CASGLWR ABWYDAU, CASGLWR GWYMON A CHWILOTWR